



PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWDYD YN SWYDDFEYDD Y
CYNGOR YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS AR
DDYDD MAWRTH 30 IONAWR AM 5.30PM**

YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd T. Parry – Cadeirydd
Y Cyngorydd B. Miles – Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

E.M. Aldworth, C. Bishop, A. Broughton-Pettit, M. Chacon-Dawson, P. Cook, M. Evans, A. Farina-Childs, C. Gordon, T. Heron, A. Leonard, J. Roberts, J. Simmonds, S. Skivens, J. Winslade, a K. Woodland.

Aelodau'r Cabinet:

Y Cynghorwyr C. Andrews (Addysg a Chymunedau), ac E. Forehead (Gofal Cymdeithasol).

Ynghyd â:

Swyddogion: D. Street (Dirprwy Prif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), G. Jenkins (Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol), J. Williams (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Gwasanaethau i Oedolion), T. McMahon (Rheolwr Gofalu am Gaerffili), A. Griffiths (Rheolwr Darparu Gwasanaethau), D. Boucher (Rheolwr Cymorth Gwasanaethau), S.J Irish (Cydlynnydd Costau Byw), C. Quinn (Ymarferydd Ysgolion Iach), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

E. Pryce (Cyfarwyddwr Cynorthwyol: Polisi a Strategaeth, Gwasanaeth Cyflawni Addysg), S. Speedy (Partner Gwella Ysgolion, Gwasanaeth Cyflawni Addysg), S. Ellington (Canolfan Cyngor ar Bopeth), C. Morgan (Canolfan Cyngor ar Bopeth), R.Owen (Pennaeth – Ysgol Idris Davies) a J. Duggan (Pennaeth Cynorthwyol – Ysgol Idris Davies).

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Cadeirydd y rhai oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw, ac y byddai recordiad ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. [Cliciwch yma i weld.](#)

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd D. Cushing, a Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg), Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), Mr G. James (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr), Mrs P. Ireland (NEU), Mrs K. Cole (NEU), a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Nodwyd bod y Cynghorydd M. Chacon-Dawson wedi datgan buddiant personol o ran Eitem 7 ar yr Agenda. Diweddariad ar Gynnydd a Gwerthusiad Gofalu am Gaerffili a'r Cynllun Gwirfoddoli i Weithwyr gan ei bod yn briod â rhywun sy'n gweithio i Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO).

Nodwyd bod y Cynghorydd S. Skivens wedi datgan buddiant personol o ran Eitem 7 ar yr Agenda. Diweddariad ar Gynnydd a Gwerthusiad Gofalu am Gaerffili a'r Cynllun Gwirfoddoli i Weithwyr gan ei fod yn Ymddiriedolwr Cyngor ar Bopeth, Blaenau Gwent.

Gan mai buddiannau personol yn unig oedd y rhain, nid oedd yn ofynnol iddyn nhw adael y cyfarfod ac roedd modd iddyn nhw gymryd rhan lawn yn y ddafl.

3. PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A GYNHALIWYD AR 28 TACHWEDD 2023

Cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2023 fel cofnod cywir a thrwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar (ac wrth nodi bod 13 o blaid, 0 yn erbyn ac 2 yn ymatal), cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2023 (cofnodion rhif 1-9) fel cofnod cywir.

4. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN.

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynodd y Rheolwr Craffu yr adroddiad, a oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ei Flaenraglen Waith a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr 2024 a mis Mawrth 2024.

Penderfynwyd ar adroddiad diweddar ar y newidiadau i'r fframwaith arolygu ar gyfer y cyfarfod arbennig ym mis Mai neu'n hwyrach yn y flwyddyn.

Nododd y Cynghorydd E. Forehead fod ei henw wedi'i restru'n anghywir ar eitemau yn y Blaenraglen Waith ac y dylid disodli'r rhain gyda'r Cynghorydd C. Andrews.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, a gyda chynnwys yr adroddiad ychwanegol, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy ddefnyddio Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.

PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol fel y'i hatodwyd i bapurau'r cyfarfod, fel y'i diwygiwyd, ar wefan y Cyngor.

6. ADRODDIADAU'R CABINET

Cadarnhawyd na fu unrhyw geisiadau i unrhyw un o adroddiadau'r Cabinet a restrwyd ar yr agenda gael eu dwyn ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau canlynol.

7. DIWEDDARIAD AR GYNNYDD A GWERTHUSIAD GOFALU AM GAERFFILI A'R CYNLLUN GWIRFODDOLI I WEITHWYR.

Cyflwynodd y Cynghorydd C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau) yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar gynnydd, llwyddiannau allweddol, a heriau Gwasanaeth Gofalu am Gaerffili a'r Cynllun Gwirfoddoli i Weithwyr.

Dywedodd cynrychiolwyr o'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth wrth yr Aelodau am eu perthynas waith llwyddiannus gyda Gofalu am Gaerffili a'r manteision maen nhw wedi'u cael. Roedd Canolfan Cyngor ar Bopeth hefyd wedi cynorthwyo Gofalu am Gaerffili gan fynychu digwyddiadau 'costau byw' ac wedi cael cyllid i weithredu cynllun talebau tanwydd y gallai Gofalu am Gaerffili atgyfeirio ato. Bu Canolfan Cyngor ar Bopeth hefyd yn cynorthwyo trigolion gyda'u ceisiadau am y gronfa caledi 'costau byw'. Hysbyswyd yr Aelodau bod dwy swydd amser llawn yng Nghanolfan Cyngor ar Bopeth yn cael eu hariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am y ddwy flynedd nesaf, sef Arbenigwr Budd-daliadau Lles ac Arbenigwr Dyled.

Gofynnodd Aelod am eglurhad o ddiben Gofalu am Gaerffili. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod trigolion yn cysylltu â'r Cyngor am gymorth a chyngor a bod y Cyngor yn gallu cyfeirio'r trigolion at yr adran neu'r trydydd sector priodol. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd fod rôl Gofalu am Gaerffili yn cynnwys cynorthwyo trigolion drwy'r trydydd sector, a fyddai, gobeithio, yn eu hatal rhag angen gwasanaethau adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor.

Holodd yr Aelod hefyd a oedd cyflwyno cronfa ddata newydd yn Gofalu am Gaerffili wedi bod yn llwyddiannus ac a oedd wedi gwella rôl Gofalu am Gaerffili. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y gronfa ddata newydd wedi gwella 'rhannu gwybodaeth' gydag adrannau eraill o'r Cyngor, a byddai gwybodaeth benodol bellach ar y gronfa ddata yn cael ei cheisio a'i darparu i Aelodau pe bai angen.

Gofynnodd yr Aelod hefyd am eglurhad ynghylch sut mae gwirfoddolwyr allanol yn cael eu gwobrwyo o gymharu â'r gwirfoddolwyr a gyflogir gan y Cyngor a gafodd gymhellion o wyliau blynyddol ychwanegol. Dywedwyd wrth yr Aelodau na fyddai gwirfoddolwyr allanol yn cael eu gwobrwyo yn yr un modd gan nad ydyn nhw'n cael eu cyflogi gan y Cyngor ac na fydden nhw'n cael eu cynnwys yn y polisi penodol hwnnw.

Cyfeiriodd Aelod at y tystebau yn yr adroddiad a holodd beth sy'n gallu cael ei wneud i sicrhau bod pobl yn fwy ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod Gofalu am Gaerffili yn cael cyhoeddu'rwydd eang ac yn cael ei hyrwyddo'n eang, yn ogystal ag 'ar lafar' gan drigolion yn y gymuned.

Nododd Aelod y gwaith a'r adroddiad cynhwysfawr gan Swyddogion a gofynnodd am ragor o wybodaeth ariannol ynghylch costau prosiectau, dadansoddiad o'r cyllid a dderbyniwyd a

manyllion gwariannau. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai crynodeb ariannol yn cael ei anfon ymlaen at yr Aelodau ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar y gwasanaeth 'cyfeillio' a ddarperir gan Gofalu am Gaerffili, y credwyd ei fod yn gyfrifoldeb GAVO. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y gwasanaeth 'cyfeillio' wedi'i hen sefydlu yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Nododd yr Aelod hefyd nad oedd wedi gallu cysylltu â Gofalu am Gaerffili ar sawl achlysur. Gwahoddwyd yr Aelod i roi manyllion penodol i Reolwr Gofalu am Gaerffili ac ymdrinnir â'r mater hwn yn dilyn y cyfarfod.

Nododd Aelod fod sefydliadau elusennol yn cael eu gordanysgrifio lle mae'r Cyngor yn gwneud atgyfeiriadau iddyn nhw heb unrhyw gyllid. Cyfeiriwyd at y canolfannau dydd a'r angen i gynorthwyo'r sefydliadau elusennol y cyfeiriwyd atyn nhw. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod galw mawr am y gwasanaethau oedd ar gael a bod y galw, ar hyn o bryd, yn uwch na'r hyn oedd ar gael i drigolion. Hysbyswyd yr Aelodau o'r angen am ragor o wirfoddolwyr i gwrdd â'r galw am wasanaethau penodol. Holodd yr Aelod a allai'r Cyngor gynorthwyo gyda hyfforddiant neu gyllid ar gyfer yr elusennau hyn. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried yn dilyn y cyfarfod.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ar rannu gwybodaeth o fewn adrannau. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod proses 'un pwynt cyswllt' yn cael ei rheoli lle cesglir data i gynorthwyo trigolion gydag adrannau amrywiol y gallai fod angen iddyn nhw gysylltu â nhw yn y Cyngor, a rhennir yr wybodaeth hon ag adrannau perthnasol eraill, fel bod modd osgoi dyblygu diangen, a bod cofnodion trigolion yn cael eu diweddarau i gynnwys unrhyw faterion hanesyddol. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chadw am 6 blynedd.

Holodd Aelod am lwyddiant y 'Cynllun Cyfail' o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Hysbyswyd yr Aelodau bod y cynllun hwn wedi'i sefydlu yn ystod y pandemig a'i fod yn cael ei redeg gan y Cyngor ac yn cynnwys gweithwyr y Cyngor. Yn dilyn y pandemig, diwygiwyd y 'Gwasanaeth Cyfeillio' ac roedd gwirfoddolwyr gwreiddiol y gwasanaeth hwn yn awyddus i gymryd rhan eto, gan fod y gwasanaeth hwn wedi'i 'gohirio' yn ystod y pandemig. Hysbyswyd yr Aelodau, er bod trosiant o wirfoddolwyr oherwydd newidiadau yn eu hamgylchiadau, y byddai llawer o wirfoddolwyr yn aros yn y gwasanaeth am amser hir.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac a oedd yn seiliedig ar brawf modd a/neu a oedd yn ad-daladwy gan ddeiliaid tai. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y grantiau yn seiliedig ar brawf modd ond nad ydyn nhw'n ad-daladwy ac y byddai rhagor o wybodaeth am y prawf modd yn cael ei hanfon at yr Aelodau ar ôl y cyfarfod. Holodd yr Aelod hefyd a oedd gwasanaeth tecstio ar gael i'r gymuned fyddar i gael mynediad at y gwasanaeth hwn ac a oedd tîm Gofalu am Gaerffili yn mynychu clybiau yn y gymuned gyda dehonglydd laith Arwyddion Prydain. Dywedwyd wrth yr aelodau nad yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd ond y gellid ei ystyried i wella'r gwasanaeth i drigolion byddar.

Nododd y Pwyllgor Craffu gynnwys yr adroddiad.

8. Deilliannau Cyfnod Allweddol 4 yn 2023.

Cyflwynodd y Cynghorydd C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau) yr adroddiad a oedd yn rhoi data canlyniad terfynol i'r Aelodau ar gyfer ysgolion uwchradd o fewn yr Awdurdod Lleol ar gyfer 2022-2023 (Haf 2023). Hysbyswyd yr Aelodau bod Llywodraeth Cymru eleni, am y tro cyntaf ers 2019, yn cynhyrchu Setiau Data Craidd Cymru Gyfan – Cyfnod Allweddol 4 ar lefel ysgolion unigol. Defnyddiwyd gwahanol ddulliau ar gyfer pennu graddau ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf, felly, nid oes modd cymharu'r un ohonyn nhw'n uniongyrchol. Yn 2023, mae canlyniadau cenedlaethol yn is na 2022, 2021 a 2020, ond nid mor isel â 2019.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cynorthwyo Polisi a Strategaeth y Gwasanaeth Cyflawni Addysg gyflwyniad i'r Aelodau a oedd yn Gyflwyniad Esboniadol i Aelodau o Fesurau Perfformiad

Cyfnod Allweddol 4. Rhoddwyd esboniad manwl hefyd i'r Aelodau o'r holl siartiau a graffiau yn yr adroddiad.

Holodd Aelod a roddwyd unrhyw ystyriaeth i ailbennu rhywedd wrth raddio, gan y cyfeiriwyd at wrywod a benywod. Hysbyswyd yr Aelodau bod y data wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru ac ni ddarparwyd unrhyw gategori arall.

Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch 'teuluoedd' a 'safleoedd' yr ysgolion. Rhoddwyd eglurhad i'r aelodau o safleoedd 1 i 10, gyda safle 1 yn golygu'r ysgol fwyaf difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau hefyd sut mae'r ysgolion yn cael eu 'grwpio' gyda'i gilydd.

Holodd Aelod a oedd disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion mwyaf difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol yn dal i fod dan anfantais er bod ganddyn nhw, efallai, athrawon profiadol. Dywedwyd wrth yr aelodau bod data wedi dangos ers nifer o flynyddoedd bod gan yr ysgolion â lefel uwch o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim lefel perfformiad is.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am yr adroddiad a'r cyflwyniad a gofynnodd i sleidiau'r cyflwyniad gael eu dosbarthu i'r Aelodau ar ôl y cyfarfod.

Craffodd y Pwyllgor Craffu ar gynnwys yr adroddiad a gwnaeth yr Aelodau ofyn cwestiynau a chynnig barn ar ddeilliannau ysgolion yn gyffredinol.

9. YSGOLION IACH AR FEPIO.

Cyflwynodd y Cyngorydd C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau) yr adroddiad a oedd yn ystyried pryderon cenedlaethol a lleol ynghylch fepio ymhlith pobl ifanc a nododd sut mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i gynorthwyo ysgolion i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod ychydig o dan 125,000 o bobl ifanc 11 i 16 oed ledled Cymru wedi cymryd rhan yn arolwg Y Rhwydwaith Ymchwil lechyd mewn Ysgolion yn 2021/22 a bod data yn nodi bod 1 o bob 5 o bobl ifanc yng Ngwent wedi rhoi cynnig ar sigarét electronig, a elwir yn fwy cyffredin fel fepio. Hysbyswyd yr Aelodau, mewn ymrwymiad i leihau'r nifer cynyddol o bobl ifanc sy'n fepio ledled Caerffili, fod y tîm ysgolion iach yn gweithio mewn partneriaeth ag lechyd Cyhoeddus Cymru a darparwyr allanol eraill. Mae ysgolion yn cael arweiniad cynhwysfawr sy'n briodol i oedran y disgyblion i'w haddysgu nhw am effeithiau andwyol fepio. Bydd hyn, yn ei dro, yn annog dewisiadau gwybodus ynghylch defnyddio fêps.

Rhoddodd Pennaeth Ysgol Idris Davies 3-18 gyflwyniad i'r Aelodau ar fepio mewn ysgolion, yn benodol, data a ddarparwyd sy'n ymwneud ag Ysgol Idris Davies 3-18. Rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau am gefndir e-sigaréts, y cynnydd yn y defnydd ohonyn nhw gan ddisgyblion yr ysgol, ac effaith yr aflonyddwch, ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn toiledau a'r difrod i eiddo ysgol a achosir gan ddisgyblion yn fepio yn ystod amser gwersi.

Hysbyswyd yr Aelodau o'r ymateb i'r materion hyn gan Ysgol Idris Davies 3-18 a oedd yn cynnwys rhagor o fonitro ardaloedd o amgylch yr ysgol, treialu larymau fepio yn y toiledau, addysgu disgyblion am y risgiau cysylltiedig ac addasu polisi ymddygiad yr ysgol i atal disgyblion rhag fepio yn y dyfodol.

Cyfeiriodd Aelod at raglen ddogfen y BBC, "Panorama", o fis Medi 2023 a oedd hefyd yn tynnu sylw at faterion fepio mewn ysgolion, a chwestiynodd y rôl y gallai Safonau Masnach y Cyngor ei chael ar hyn o bryd o ran gwerthu fêps. Dywedwyd wrth yr Aelodau y cysylltir â'r Swyddogion perthnasol ar ôl y cyfarfod ac y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei dosbarthu i'r Aelodau.

Holodd Aelod pa gysylltiad oedd gan yr ysgol â rhieni plant a oedd wedi bod yn fepio yn yr ysgol. Hysbyswyd yr Aelodau, pan fydd disgybl yn cael ei ddal yn fepio yn yr ysgol, bod y ddyfais yn cael ei hatafael a chysylltir â'r rhieni sy'n cael eu gwahodd i'r ysgol i drafod y mater. Nod yr ysgol yw cynorthwyo'r disgybl a'i addysgu i atal fepio pellach yn y dyfodol.

Roedd Aelod yn dymuno diolch i'r Pennaeth am y cyflwyniad ardderchog a'r wybodaeth a ddarparwyd.

Holodd Aelod a oedd y disgyblion, o'u haddysgu am risgiau ac effeithiau fepio, wedi'u synnu gan yr hyn y maen nhw'n ei ddysgu. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod hwn yn faes anodd, gan fod fepio'n cael ei weld yn gyffredinol yn ddewis arall derbynol i ysmegu ond y gall achosi niwed anhysbys o hyd nad yw disgyblion yn ymwybodol ohono.

Nododd Aelod y cyflwyniad diddorol a holodd a oedd y fêps yn cael eu prynu'n lleol neu ar-lein. Hysbyswyd yr Aelodau, o siarad â'r disgyblion, y credir bod y fêps wedi'u prynu oddi wrth ddisgyblion a allai fod wedi'u prynu mewn swmp ar-lein, ac yna eu gwerthu i ddisgyblion eraill. Dywedwyd wrth yr Aelodau hefyd y deallir eu bod hefyd yn cael eu prynu yn y gymuned leol, ac awgrymwyd y gellid gofyn i'r disgyblion gadarnhau'r union eiddo ble maen nhw wedi cael eu prynu. Gofynnodd yr Aelod am eglurhad ar unrhyw ymyriadau gan Safonau Masnach ac adrannau perthnasol eraill y Cyngor. Hysbyswyd yr Aelodau y gallai hwn fod yn bwnc a fyddai'n cael ei drafod mewn Seminar Aelodau ar wahân yn y dyfodol agos.

Holodd Aelod a oes unrhyw ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol ynghylch fepio sy'n targedu plant ysgol, ac awgrymodd y gallai'r Awdurdod Lleol gynhyrchu ymgyrch/cystadleuaeth ymwybyddiaeth wedi'i thargedu at blant ysgol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i'r Heddlu, lle mae safleoedd sy'n gwerthu fêps i blant ysgol yn cael eu nodi.

Holodd Aelod sut yr ymdrinnir ag achosion o fepio ar deithiau bws ysgol. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y digwyddiadau hyn yn cael eu trin yr un fath â phe baen nhw wedi digwydd ar safle'r ysgol os gellir adnabod y disgyblion, a all fod yn anodd gan nad yw staff ysgol yn bresennol ar y bysiau.

Eglurodd Aelod fod gwybodaeth yn cael ei rhoi ar lafar i rieni pan fydd yr ysgol yn cysylltu â nhw; fodd bynnag, byddai taflen wybodaeth/iechyd yn cael ei hystyried pe bai hon ar gael i ysgolion.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod athrawon wedi adrodd bod disgyblion sy'n mynd yn gaeth i fepio yn tarfu ar wersi i gael mynediad i'r toiledau i fepio a bod hyn hefyd yn effeithio ar eu haddysg.

Rhoddodd y Pwyllgor Craffu ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a chymeradwyodd y cymorth a gynigir i ysgolion.

Terfynwyd y cyfarfod am 7.20pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir, yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau a gytunir a'u cofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 12 Mawrth 2024.